**Ffurflen i Asesu Effaith mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg**

Yn unol â Safonau'r Gymraeg, mae'n rhaid i'r Brifysgol asesu effaith ei holl bolisïau ar:

- Y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg
- Yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Yn y cyd-destun hwn, mae 'polisi' yn cael ei ddehongli'n eang ac mae'n cynnwys strategaethau, ailstrwythuro, systemau newydd ac ati.

Mae'n ofynnol gwneud 'ymdrech gydwybodol' i ddeall effaith polisi ar y Gymraeg. Ystyriwch yr effeithiau cadarnhaol, niwtral a negyddol gan gyfeirio at dystiolaeth i gefnogi'r asesiad. Mae'r dystiolaeth y gallwch gyfeirio ati yn cynnwys, er enghraifft, data sgiliau iaith, data astudio drwy'r Gymraeg, cadw at y Cod Ymarfer ar Benodi Staff, trafodaethau mewn pwyllgorau, ymgynghori â myfyrwyr a staff. Gall Canolfan Bedwyr ddarparu arweiniad pellach i chi. Cysylltwch â Dr Lowri Hughes l.a.hughes@bangor.ac.uk.

Defnyddiwch y ffurflen hon i wneud eich asesiad a chofnodi effaith eich penderfyniad polisi ar y Gymraeg. Dylai hon fod yn ddogfen fyw sy'n cael ei diweddaru wrth i'r penderfyniad polisi ddatblygu. Mae cadw cofnodion yn bwysig er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau.

| | |
|---|---|
| **Enw'r Polisi:** | Gweithdrefn 03: Gweithdrefn ar gyfer Dysgu Seiliedig ar Waith |
| **Coleg / Ysgol / Adran:** | Gwasanaethau Myfyrwyr ac Academaidd |
| **Aelod(au) staff sy'n cwblhau'r asesiad effaith ar y Gymraeg:** | Yr Athro Fay Short |

**RHEOLI'R DDOGFEN**

| Rhif y Fersiwn | Dyddiad Cwblhau | Pwy fu yn ei thrafod | Crynodeb o'r newidiadau |
|---|---|---|---|
| 1.0 | Hydref 2025 | Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd | Dogfen newydd. |

| CAPASITI STAFFIO DWYIEITHOG | Effeithiau Cadarnhaol | Effeithiau Niwtral | Effeithiau Negyddol | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Effeithiau Uniongyrchol** | | | | ✓ |
| **Effeithiau Anuniongyrchol** | | | | ✓ |
| **Camau i gynyddu effeithiau cadarnhaol** | | | | ✓ |
| **Camau i leihau effeithiau negyddol** | | | | ✓ |
| **Crynodeb a sylwadau pellach** | Amherthnasol – gweithdrefn yw hon sy’n canolbwyntio ar leoliadau myfyrwyr. | | | |

| DEFNYDDIO'R GYMRAEG: (cyfleoedd i staff, myfyrwyr, y cyhoedd) | Effeithiau Cadarnhaol | Effeithiau Niwtral | Effeithiau Negyddol | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|
| **Effeithiau Uniongyrchol** | | Mae'r weithdrefn a'r holl ddogfennaeth a chyfathrebiadau cysylltiedig ar gael yn ddwyieithog, gan alluogi staff a myfyrwyr i ymgysylltu trwy eu dewis iaith.<br><br>Lle bo modd, cefnogir cyfleoedd lleoliadau Cymraeg, gan ganiatáu i fyfyrwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destun proffesiynol fel rhan o ddysgu seiliedig ar waith. | Mae risg bosibl nad yw pob arweinydd lleoliadau na goruchwyliwr yn siarad Cymraeg, a all gyfyngu ar ryngweithio trwy gyfrwng y Gymraeg mewn rhai achosion. | |
| **Effeithiau Anuniongyrchol** | | | | ✓ |
| **Camau i gynyddu effeithiau cadarnhaol** | Bydd y Brifysgol yn hyrwyddo dewis iaith a dwyieithrwydd, gan | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | gynnwys o fewn lleoliadau dysgu seiliedig ar waith. | | | |
| **Camau i leihau effeithiau negyddol** | Bydd ystyried dwyieithrwydd a dewis iaith yn rhan o baratoi ar gyfer lleoliadau ar lefel yr Ysgol. | | Lle bo angen, bydd staff sy'n siarad Cymraeg yn darparu cefnogaeth neu oruchwyliaeth ychwanegol. | ✓ |
| **Crynodeb a sylwadau pellach** | Mae'r weithdrefn yn ddwyieithog ac mae'n peri'r risg leiaf posibl i'r Gymraeg. Mae unrhyw risgiau a nodwyd yn ymwneud â darpariaeth ac yn cael eu lliniaru i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. | | | |

| **DARPARIAETH ACADEMAIDD TRWY'R GYMRAEG** | **Effeithiau Cadarnhaol** | **Effeithiau Niwtral** | **Effeithiau Negyddol** | **Amherthnasol** |
|---|---|---|---|---|
| **Effeithiau Uniongyrchol** | | Oherwydd capasiti staffio a natur dysgu seiliedig ar waith, efallai na fydd yr holl ddarpariaeth gysylltiedig yn ddwyieithog. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Effeithiau Anuniongyrchol** | | | | ✓ |
| **Camau i gynyddu effeithiau cadarnhaol** | | | | ✓ |
| **Camau i leihau effeithiau negyddol** | | Bydd yr holl ganllawiau a gwybodaeth weithdrefnol sy'n ymwneud â lleoliadau dysgu seiliedig ar waith ar gael yn ddwyieithog. | | |
| **Crynodeb a sylwadau pellach** | Er y gall rhai cyfyngiadau ar y ddarpariaeth fodoli, mae mesurau lliniaru priodol ar waith i sicrhau mynediad at wybodaeth a chefnogaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. | | | |

| **GWASANAETHAU CYMRAEG** | **Effeithiau Cadarnhaol** | **Effeithiau Niwtral** | **Effeithiau Negyddol** | **Amherthnasol** |
|---|---|---|---|---|
| **Effeithiau Uniongyrchol** | Proses ddwyieithog, gan gynnwys y systemau a ddefnyddir. | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Effeithiau Anuniongyrchol** | | | | ✓ |
| **Camau i gynyddu effeithiau cadarnhaol** | | | | ✓ |
| **Camau i leihau effeithiau negyddol** | | | | ✓ |
| **Crynodeb a sylwadau pellach** | Mae'r systemau a grybwyllir yn y weithdrefn yn ddwyieithog. | | | |